

# Llanw Llŷn

Rhif 267

MEHEFIN 2000

35c

## DARGANFOD Ynys Enlli 2000

Rhwng rŵan a'r haf fe fydd yna oddeutu 1,500 o blant Gwynedd yn cael mynd ar daith gwerth chweil i Enlli. Ar y 7fed o Fehefin cyfle plant ysgol Cymerau oedd hi a dyma Tasha Jones yn dweud yr hanes:



Diwrnod braf oedd hi y bore yma ym Mhwlheli, roeddem yn mynd i Ynys Enlli. Cychwynom o'r ysgol am 8 o'r gloch. Roedd Kenneth wedi codi yn hwyr felly bu'n rhaid aros amdano wrth ymyl y post oherwydd roedd o eisiau cinio i fynd efo fo.

Cawsom ymweld â llyfudd diddorol yn Aberdaron cyn mynd i Borth Meudwy i ddal y cwch.

Pan oedd pawb yn y cwch cawsom gychwyn, roedd Mr Gruffydd yn mynd yn y cwch patrol ac roeddent yn mynd yn gyflymach na'r cwch mawr. Eisteddais wrth ymyl Zoe a Ben ac roeddem yn edrych drosodd i'r môr ac yn rhoi ein dwylo allan i deimlo'r gwynt. Roedd y cwch yn mynd yn gyflym iawn yr holl ffordd i Ynys Enlli.

Pan gyrhaeddodd yr ynys rhesom ein bagiau mewn cwt, roedd hi yn dresi yn y cwt, oglau pysgod! Cawsom fag coch neu fag glas gan Ymddiriedolaeth Enlli efo gwahanol offer i ni eu defnyddio ar yr ynys fel clipfwrdd, sbienddrych, beiro, pensil, pasteli olew a daliwr trychiilod. I ddechrau aethom at y traeth a gwneud gwaith am y cynefin yn ein llyfrau, wedyn aethom at y bae ble roedd y

morloi. Roeddynt yn arnofio ar y dŵr â'u trwynau yn yr awyr yn edrych yn syn ar ddisgyblion Ysgol Cymerau.

Ar ôl cael hanes y Goleudy aethom i nôl ein bagiau. Roedd llawer o faw defaid o'n cwmpas Fe wnaeth Christine Evans ddweud stori wrthym fel roeddem yn bwyta, roedd hi yn dda iawn.

Ar ôl mynd ar y traeth, aethom i gadw ein bagiau ac aethom i'r siop a gwario pob ceiniog. Roedd cyfle wedyn i fynd i'r toiled, roeddynt yn afiach i mi oherwydd roeddynt yn edrych fel bin, doedd yna ddim dŵr i fflyshio.

Ar ôl i bawb ddod o'r siop a'r rhai dewr fynd i'r toiled aethom i weld adfeilion yr abaty ac ymlaen at y capel. Yno cawsom gyfle i ysgrifennu efo Christine Evans. Buom yn gwrandao arni yn darllen barddoniaeth a rhoddodd syniadau i ninnau hefyd.

Cerddom yn ôl at yr harbwr i wneud gwaith celf efo Ben. Roeddem yn gorfod gwneud llun o rywbeth y gallem ei weld efo'r pasteli olew. Roedd hyn yn dipyn o hwyl ac roedd rhai wedi gwneud lluniau da iawn.

Yn anffodus roedd wedi

## Fforwm Bro i Llyn

Daeth tua 30 o bobl ynghyd i gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ddiwedd Mai i drafod pris uchel v dreth. Roedd y cyfarfod yn un o gyfres a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Llaniestyn. Y gwyn bennaf oedd fod pris y dreth yn codi yn sylweddol bob blwyddyn ac nad ydyw'n amlwg i bobl Llŷn ar be yn union y mae'r arian yn cael ei wario. 'Mae'r dreth dros £500, a wela i ddim ein bod ni' elwa

fawr ddim ohoni,' meddai Teleri Wyn Jones o Lanestyn, sydd wedi bod yn weithgar yn trefnu'r cyfarfodydd hyn.

Daeth y Cyng Seimon Glyn, E.B. Hughes o Bwllheli ac Evie Griffith o Fotwnnog i'r cyfarfod i ffurfio Panel a buont yn ateb cwestiynau ac yn egluro beth sy'n digwydd i arian y dreth. Eglurodd y Cyng Seimon Glyn fod y dreth, mewn gwirionedd yn talu am lawer iawn o wasanaethau. Cred mai un broblem yw fod y cysylltiad rhwng yr awdurdodau lleol ac ardalwyr Llŷn wedi pellhau ers yr adrefnu Llywodraeth Leol, a chysylltiad wedi'i gollu.

Yn dilyn y cyfarfod mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cais i sefydlu Fforwm Bro, lle gall ardalwyr drafod eu pryderon gydag uwch-swyddogion y Cyngor. Beth yw eich bam am hyn? Fyddech chi'n manteisio ar gyfle felly?

Bydd cyfarfod eto yn Nghanolfan Llaniestyn ar Fehefin 19 am 8 o'r gloch, Beth ydy'ch teimladau chi am y dreth? Mae croeso cynnes i unrhyw un fynd i roi eu bam neu eu sylwadau. Neu estynnwch am bapur a beiro a tarwch lythyr i'r Llanw. Byddem yn croesawu unrhyw drafodaeth.

cyrraedd yn amser i ni fynd adref erbyn hyn ac roedd rhaid i ni ffarwelio ag Ynys Enlli. Pan gyrhaeddodd y cwch i fynd â ni yn ôl aethom i gadw ein bagiau coch a glas ac aethom i'r cwch. Cafodd Miss Jones fynd yn y cwch patrol y tro yma ac roedd Mr Gruffydd a Mr Evans yn y cwch efo ni. Aethom yn y cwch bach i'r cwch mawr eto ac ym Mhorth Meudwy roedd dynion yn ein cario i'r lan, fe neidiodd Mr Evans o'r cwch ond fe wlychodd Mr Gruffydd wrth wneud yr un peth.

Cerddom yn ôl at y bws ac aethom adref yn ôl i Bwllheli. Roeddwn i wedi blino yn lân ond roedd y trip yn werth chweil ac yn dda iawn. Wna i byth anghofio fy nhaith gyntaf i Ynys Enlli.

TASHA TONES  
Ysgol Cymerau

## Enillwyr Eisteddfod Bro Conwy

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Conwy a llongyfarchiadau arbennig i'r enillwyr.



Parti Llefaru Adran Bentref Pont y Gof a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth rhwng 12 a 15 oed. (Llun: Dewi Wyn)



Enlli Pugh, 6 oed, o adran Botwnnog a ddaeth yn gyntaf gyda'r Unawd Cerdd Dant dan 8 oed. (Llun: Dewi Wyn)

## Cystadleuaeth Crys T

Mae trefniadau Gŵyl Pen Draw'r Byd yn mynd rhagddynt eto leni. Ymysg y perfformwyr bydd Anweledig, Catsgam, Geraint Roberts a'i fand a Meic Stevens. Y gweithgaredd cyntaf yw cystadleuaeth i ddylunio cynllun ar gyfer y crysau-T leni. Bydd gwobr o CD neu ddau diced i fynd i'r Wyl yn cael eu cynnig i'r enillyddi. Anfonwch eich ceisiadau at Mai Scott, Hafoty Edern cyn Gorffennaf 14.

# Dyddiadur y Mis

**Mehefin 15** - Clwb y Neuadd, Mynytho, - Helfa Drysor yn cychwyn o'r neuadd rhwng 6.00 a 6.30. Trefnir gan John a Megan Griffith, Tŷ Rhos, Llangwnnadr. Ffôn: 770223 neu 740704.

**Mehefin 15** - Cyfarfod Blynyddol Biff Llŷn Cyf. yng Ngwesty'r Goedlan, Edern, am 7.30 yng nghwmni Mr. Gareth Evans, Hufenfa De Arfon.

**Mehefin 16** - Taith Gerdded yn cychwyn o'r Sarn am 6.30. Ffôn: 730249.

**Mehefin 16** - Gayl y Nant - Strymdingars, Geraint Roberts a'r Band, ac Ap Ted a'r Apostolion.

**Mehefin 17** - Gŵyl y Nant - Catsgam, John ac Alun, a Dafydd Iwan a'r Band.

**Mehefin 19** - Cyfarfod Cyhoeddus i ardalwyr Pen Llŷn yng Nghanolfan Llaniestyn am 8.00. Ffôn: 730367.

**Mehefin 23** - Neuadd y Rhiw - taith gerdded yng ngofal Brian Jones yn cychwyn am 6 o'r gloch. Bwyd i ddilyn yn y neuadd. I archebu bwyd, ffoniwch 760287 neu **780330** erbyn Mehefin 21.

**Mehefin 24** - Gwthio 'chariot' o amgylch Abersoch ac i'r Warren mewn gwisg ffansi. Elw i Garnifal Sarn.

**Mehefin 25** - Capel y Drindod, Pwllheli - Cymanfa Ganu Unedig M.C. Llŷn ac Eifionydd. Arweinydd: Mr. T.J. Williams, Llanrwsr.

**Mehefin 28** - Noson o Bingo yng Nghanolfan Gymdeithasol Llanengan am 7.30.

**Mehefin 29** - Cyngerdd Pen-blwydd Ysgol Hafod Lôn yn 25ain oed yng Nghanolfan Porthmadog am 7.30. Oedolion - £4, plant - £2. Artistiaid amrywiol.

Mehefin 30 - Helfa Drysor Gerdded yn cychwyn o Ganolfan Llaniestyn am 6.30. Mehefin 30 - Maharishi yng Ngwesty'r Goedlan. Tocynnau ar werth yn Efail Rhos, Rhoshirwaun; Llên Llŷn, Pwllheli; neu trwy ffonio 770479. Elw i Garnifal Sarn.

Gorffennaf 2 - Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron. Eitemau gan Hogia'r Mynydd. Dechreuir am 8 o'r gloch.

Gorffennaf 7 - Cyngerdd a Choronï Brenhines y Blodau, Sarn a Bryncroes yn Neuadd Rhoshirwaun am 7.00 p.m. Cyngerdd gyda Llion Williams, Iona ac Andy, Storm.

Gorffennaf 8 - Carnifal Sarn a Bryncroes yn Neuadd Rhoshirwaun am 5.00p.m.

Gorffennaf 8 - Cyngerdd gan Gôr Pwllheli a'r Cylch yn Eglwys Sant Pedr am 7.30. Arweinydd: John Hywel. Perfformiad o "Mass in G" (Schubert) a "Tymhorau" (Eric Lloyd Williams), ynghyd â chytganau enwog. Tocynnau ar werth yn Siop Copi, gan aelodau'r côr a'r ysgrifennydd - ffôn: (01758) 612609.

Gorffennaf 14 - Neuadd y Rhiw - mabolgampau yng nghae Ty'n Mynydd am 6.00 o'r gloch, gyda disgo i ddilyn yn y neuadd yng ngofal Glyn Jones. £1 i oedolion a 50c i blant.

Gorffennaf 19 - Ymrysonfa Cŵn Defaid Sarn a'r Cylch ar gae Trigwrm am 2.00.

neuadd am 6.00 o'r gloch. Trefnir gan Dic Goodman a John Ellis. Enwau ar gyfer archebu bwyd erbyn nos Lun, Gorffennaf 17. Ffôn: 740 289 neu 740 536.

Gorffennaf 21 - Noson Rhostio Oen a Dawnsio Gwerin ar Fferm Cwrt, Uwchmynydd, nos Wener, am 7.00 o'r gloch. Elw tuag at yr Eglwys Newydd.

Gorffennaf 21 - Cartref y Pwyliaid, Penrhos - Barbaciw.

Gorffennaf 21 - Neuadd Rhoshirwaun. Cyngerdd Coroni Brenhines y Grug gydag Edward Morris Jones am 7.00.

Gorffennaf 22 - Neuadd Rhoshirwaun. Carnifal am 2 o'r gloch.

Gorffennaf 22 - Sêl Cist Car yn y mart yn Sarn am 1 o'r gloch. Cysyllter â K.M. Jones. Ffôn: 770 663.

Gorffennaf 26 - Râs Ffordd a Ffridd Pen Draw Llŷn yn cychwyn o Ysgol Crud-y-Werin am 7.00. Cynhelir Noson Goffi am 7.30.

**Awst 2** - Neuadd Rhoshirwaun - Barbaciw a Dawnsio Gwerin.

**Awst 5** - Neuadd Rhoshirwaun - Sêl Cist Car.

**Awst 5** - Dawns gyda Bryn Fôn ac eraill yn Crugeran tuag at neuadd Sarn.

**Awst 10** - Ffair Grefftau yn neuadd y Rhiw am 7.00. £5 y bwrdd. Ffôn: 760287 neu 780 330.

**Awst 12** - Sêl Cist Car yn neuadd Rhoshirwaun am 1.00 o'r gloch gan y Lleng Brydeinig, Rhoshirwaun a'r Cylch. Ffôn: (01758) 730 340.

**Awst 16** - Cymanfa Bregethu Gyd-Enwadol Rhoshirwaun am 2.30 a 6.30.

**Awst 17** - Cymanfa Bregethu Gyd-Enwadol Rhoshirwaun am 10, 2 a 6.30 o'r gloch.

**Awst 18** - Barbaciw a dawnsio gwerin yn Llecyn, Llangwnnadr, am 7 o'r gloch.

**Awst 19** - Arddangosfa Blodau a Chynnyrch yn neuadd Mynytho am 2.00 o'r gloch, a chyngerdd am 7.30.

**Awst 20** - Cymanfa Ganu yn neuadd Mynytho am 8 o'r gloch. Arweinydd: Mrs. Valerie T. Ellis. Gwneir casgliad tuag at Eisteddfod Gadeiriol Mynytho.

Awst 22 - Râs Wyau yn Aberdaron. Elw tuag at neuadd Rhoshirwaun.

Awst 22 - Sgwrs a sleidiau gan Mrs. M. Griffith ar hanes Beddgelert yn neuadd y Rhiw am 7.30. Oedolion - £2, plant - £1.

**Awst 24** - Te Cymreig yng nghegin neuadd Mynytho am 2.00 o'r gloch tuag at 'Age Concern'.

Medi 1 a 2 - Gŵyl Pen Draw'r Byd gydag Anweledig, Catsgam, Geraint Roberts a'i Fand, Meic Stevens a mwy.

Medi 14 - Cyfarfodydd Pregethu Capel Horeb (A), Mynytho, am 2.00 a 6.30 o'r gloch, gyda'r Parchedig Derwyn Morris Jones, Abertawe.

Medi 25 - Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaef yn Eglwys Sant Cian, Llangian, am 7 o'r gloch, gyda'r Parchedig Aled Jones-Williams, Porthmadog.

Hydref 20 - Noson yng nghwmni Hogia'r Bryniau yn neuadd y Rhiw am 7.30.

Gweithgareddau Cymdeithas Rhieni Ysgol Botwnnog

Dyma ganu telynegol hyfryd sydd yn peri i ninnau sy'n darllen brofi o'r hyfrydwch a gafodd y bardd ym mro mebyd. Peri imi weld y gogoniannau sydd o'n cwmpas o'r newydd. Mae cwpled olaf yr ail bennill yn awgrymu'n gynnil am Y therapi sydd yn swm ac ym murmur tawel Y nant.

Clywn: "Bwrw iddi'n holl ofidiau  
A'm cyfrinach yn y gwynt."

Ia, "gogoniant mewn symylrwydd"  
Dyma ganu o'r galon. Melys moes mwy.

## Bro Mebyd

Brigau'r coed yn bwrw'i blagur,  
Gwyrthiau natur ar bobllaw,  
Clawdd a pherth yn liwiau'r enfys,  
Caeau gwyrddion yma a thraw.

Gweld y nant yn troelli'n dawel  
Lawr y mynydd ar ei hynt,  
Bwrw iddi'n holl ofidiau  
A'm cyfrinach yn y gwynt.

Heibio'r ffynnon fach lle treuliais  
Amser difyr gyda nain,  
Heddiw gwn i minnau brofi  
O'i diferion, bethau cain.

Mae gogoniant mewn symylrwydd,  
Mewn distawrwydd mae rhyddhad,  
Balm i enaid nerth i'r ysbryd  
Profi'r hedd hyd lwybrau'r wlad.

Mairwen (Mai o **Lŷn**)

Bu'r cyfeillion Katie ac Ifan Pritchard yn ymweld â gwlad Israel yn ddiweddar. Nid yn annisgwyl i mi fe ddaeth cerdd o law Ifan inni. Er fod y gerdd yn hynod o ddiddorol, ac ynddi ryw neges gobeithiol ar waethaf profiadau gwaedlyd yr Israel fodern. Er fod y bardd wedi llwyddo i greu'r awrygylch o dyndra sy'n dal i gadw rhai o genhedloedd y Dwyrain Canol a'u bysedd ar gliced eu gynnau, eto mae wedi llwyddo i gynnal y gobaith aniffodd yng nghwpled olaf ei gerdd. Pam fy mod yn deud 'Er fod...' Wel, am fy mod wedi cael yr un mwynhad a phleser o ddarllen y llythyr a ddaeth yn sgil y gerdd. Mae'n llythyr arbennig o ddiddorol a dadlennol. Wrth wrando ar gyngerdd yn Jeriwsalem, lle y cyd-ganai Iddewon ac Arabiad eu moliant i Dduw cafodd y bardd wefr o obaith. Beth am roi'r hanes ar dudalennau'r **Llanw**fan a Katie?

## Gwlad yr Addewid

Afiaeth ieuentid yn nawns yr hil  
A'r llwyfan yn siglo gan gyffrochwil;  
Gwaddol yr oesau ym mer eu byw  
A bwrlwm eu cân yn beraidd i'r clyw.

Rhoi mawl i'r cymhelliad a'u galwodd ynghyd  
Y chwibau a'u gwysiodd o bellfaoedd byd  
Gwireddu dyhead blynyddoedd maith-  
Daw craster i'r nodyn... "mor arw fu'r daith!"

Mae'r haul yn ei anterth yn llunio y dydd  
Caed gwaed ar yr heol - caed Cenedl rydd!  
**Gŵr** ifanc mewn lifrai yn anwesu ei **ŵn**  
Mae i Arab ac Iddew, pobun ei bwn.

Wrth Wal y Wylofain fel syllem ni  
Ar ddull o addolisy'n gyfrin ei fri.  
Mewn dawns a defosiwn mae undodbyw -  
Cydlynnu y cyfan mewn moliant i Dduw.  
Ifan H. Pritchard

Wedi bod yn gwyllo rhaglen deledu am rawd cyn-beldroedwyr enwog yr oedd Stan Jones. 52% yn eu dydd: Peter Osgood, Tommy Lawton, Tommy Smith ac amryw eraill. Erbyn hyn mae'r rhai sydd ar dir y byw ohonynt, yn **cael** trafferth i gerdded heb gymorth cyfeillion. Gwnaeth hyn i Stan feddwl beth mae mynd yn hen a cholli egni yn olygu. Cerdd drist, meddwch. Ond eto yn ei phlygion telynegol mae'n peri inni gofio am y rhai caredig sy'n gofalu am y rhai a gollodd egni ac asbri y dyddiau gynt.

## Egni

Roedd yno pan oeddwn  
Yn blentyn dinam;  
Bu'n gymorth im 'mrwyfo  
Ar liniau fy mam.

A daeth yn fwy amlwg  
Mewn 'ienctid yn llon  
Bu bron mor ddiddarfod  
Ac ymchwyllyd y don.

Gadawodd fi'n ebrwydd  
Pan euthum yn hen,  
Dibynnu wnafr heddiw  
Ar gariad a gwên.

Stan Jones

Cywydd **cain** gan Fardd Neigwl yw'r gerdd nesaf. Mae'r cywydd hwn eto yn rhyfeddol ei grefft. Dirn ond cynganeddwr wrth reddf, megis, a allai beri i'w frawddegau oferu o un llinell i ganol hanner llinell arall; a hynny heb orfod arno frifo'r gystrawen naturiol o gwbl. Mae'n darllen mor llyfn, rhugl a distraen a phetai mewn cerdd rydd a diodl. Dirn ond meistr a allai ganu mor rydd a hyn yn y mesurau caeth!

Mae hanes a phrofiad hen bysgotwr wedi ei wau i batrwm y cywydd Campus hwn. I ni sydd yn byw ar benrhyn **Lŷn** mae'r enw Jac Ben yn ychwanegu at yr hudoliaeth sydd ynddo. Mae'r termau a'r trosiadau yn goleuo'r darlun a rydd y bardd o'n blaenau: 'cewyll', 'cwch', 'morai co', (cof wrth gwrs - nid un o fois Cnarfon!)  
'ei wêc oedd mwg ei faco'

... "Dan ei hwyl, fe **wyr** dynhau"  
Ei wynt a'i angor yntau."

## Y Bae

Cewyll i'w cynnull a'r cwch  
Yn ysu, nes i'w beswch  
Drechu Jac Ben, edrychwr  
Ydoedd o, ond holltai **ddŵr**  
A'i feddwl a'i rwyf wyddai  
Bob hiraeth rhwng traetha'r trai.

Rhwymai 'r cwch tra moriai 'r co';  
A'i **wêc** oedd mwg ei faco;  
Un **siŵr** o'i siwrnai heb siart,  
Hel abwyd yn ei libart.  
**Dŵr** hallt oedd tor i ad ei rod  
Ar dywydd fel ar dywod.

Hwyl ei gwch ar sianel gynt  
A'i rwydi, segur ydynt;  
Y chwa a'i sycha rwy'n **siŵr**.  
Eto ni ddaw'r pysgotwr  
Dan ei hwyl, fe **wyr** dynhau  
Ei wynt a'i angor yntau.

Gareth Neigwl

Dyma ddau englyn o law y cerddor enwog John Stoddart. Yn y cyntaf mae'n hriaethu 'am yr hen Sol-ffa'. Bu'r wyddor honno yn foddion i gynulleidfaodd ddysgu tonau hyfryd ac yn help llais i gorau enwog yn ogystal â datgeinwyr adnabyddus yn eu dydd.

## Hiraeth am yr hen Sol-ffa

I'n gwerin prin ei gwariant cyfrwng oedd  
i'r miloedd roi moliant  
Ond 'nawr di-dôn yw'r nodiant  
Di-sôn a di-dôn ei dant.

John Stoddart

Ac yna 'Gras ben bore'. Englyn gwerth i'w gofio. Mae ynddo gyfuniad amheuthyn o'r Gras a geir o gân foreuol yr hedydd sydd yn foddion i rai'n meddwl a sylweddoli y rhyfeddod a ddaw inni wrth wrando yn raslon. Ein barn arno? Peth da i'w ddweud, wedi ei ddweud yn dda..

## Gras Ben Bore

O'r rhin sydd yn gwllitho'r rhâd - a hudo'r  
ehedydd i'w ddringiad  
Ceir, liw dydd, yn rhydd a rhad  
Ernes o'r Gras annirnad.

John Stoddart

Mae awdur yr englyn wedi gweld coed ar lethr, a'r llawr odditanynt yn garped o flodau euraid.

Gwelodd y sbloet drwy lygaid bardd - y 'llygaid mewnol'. Yn anorfod daeth cerdd gofiadwy. Y testun yw briallu gwyllt. Mae'r ansoddair yn hawlio gweledigaeth. Nid gardd o waith dyn a welodd y bardd na blodau detholedig a meithrededig a welodd yr awdur hwn. Prynais i bansi - du mewn lle felly! Duw a'm helpo! Pwy sydd eisiau pansu du? Canodd y bardd o Bencae englyn diangof i'r briallu gwyllt gogoneddus.

## Briallu Gwyllt

Hen addurn y llechweddau - o dan goed  
Yn gain eu clystyrau  
Aur, yn rhodd ar y cloddiau  
Yno i ni i'w mwynhau.

Dyfed Evans

Diolcb i'r beirdd dawnus a da.  
Cofiwch amdanom erbyn y mis nesaf. Gair i Lôn Las ar y ffôn, Llanbedrog 740289 neu r bapur drwy'r drws neu drwy'r Post.

Siop Trin Gwallt  
Glenys

(Merched a Dynion)



Ar agor yn hwyr bob  
nos Wener tan 8

STRYD FAWR, NEFYN  
Ffôn: 01758 720 214